Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# GWYBODAETH AM BERFFORMIAD DIOGELWCH RHAG TÂN

Un o gonglfeini gwaith y Gwasanaeth Tân ac Achub yw'r maes Diogelwch Rhag Tân. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar gefnogi cydymffurfiaeth gyda Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 fel bod adeiladau annomestig y mae pobl yn gweithio, ymweld â hwy a mwynhau eu hamser hamdden ynddynt yn darparu cyfleusterau sydd yn sicrhau y gall pobl fynd allan o'r adeilad yn ddiogel mewn achos o dân. Mae'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys ymweliadau addysgol, cyfeirio at ganllawiau perthnasol a gwirio neu archwilio mesurau diogelwch tân.

Datganiad cenhadaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yw 'Gwneud Gogledd Cymru yn ardal fwy diogel i fyw, gweithio ac ymweld â hi'. Rydym ni wedi ymrwymo i reoliadau gwell, doethach sydd yn hybu twf busnesau ac , os nad ydy'r busnesau hynny'n cydymffurfio, rydym yn cynnig cefnogaeth a chyfle i drafod y canllawiau, gofynion a'r penderfyniadau er mwyn eu galluogi i gydymffurfio gyda Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Mae'r dull gweithredu hwn yn unol ag egwyddorion Cod y Rheolyddion 2014[1].

Mae oddeutu 28,000 eiddo annomestig yng Ngogledd Cymru ac mae ein gweithgareddau Diogelwch Tân i Fusnesau wedi eu hanelu at safleoedd sydd mewn mwy o berygl o achosi marwolaethau neu anafiadau o ganlyniad i dân yn ein barn ni.


Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi golwg gyffredinol ar gost ein gweithgareddau diogelu rhag tân ynghyd â chanlyniadau'r gwaith hwn. Mae'r Wybodaeth am Berfformiad wedi ei rannu'n chwe chategori hawdd i'w ddarllen. Cliciwch ar y dolenni isod am ragor o wybodaeth[2].

## EIN GWAITH

**Ymgynghoriadau mewn perthynas â safleoedd annomestig**


Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ymateb i rai sefydliadau pan fyddant yn ceisio barn arbenigol ar faterion yn ymwneud â diogelwch tân. Yn gyffredinol mae'r ymgynghoriadau hyn ar ffurf ceisiadau yn rhan o geisiadau Rheoliadau Adeiladu ar gyfer adeiladau newydd neu adeiladau sy'n cael eu hailwampio. Mae pobl hefyd yn ymgynghori gyda ni mewn perthynas â cheisiadau am drwyddedau a hefyd ynglŷn â cheisiadau cynllunio ar adegau.

Mae'r siart isod yn dangos bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymateb i 508 o ymgynghoriadau yn 2013-14, sy'n cyfateb i 3.27% o'r 15,500 o safleoedd y mae gennym ni gofnodion ar eu cyfer. Mae nifer y 'safleoedd hysbys' hyn wedi parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn ers cyflwyno Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)yn 2005.




Dalier sylw: *'Mae 'safleoedd hysbys' yn derm a ddefnyddir am safleoedd y mae gan y Gwasanaeth gofnodion ar eu cyfer. Mae'r safleoedd hyn yn cynnwys e.e. swyddfeydd, siopau, ffatrïoedd ac ysbytai.*


Mae nifer yr ymgynghoriadau ar gyfer 'safleoedd hysbys' wedi aros yn weddol gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Gwelir hyn yn y graff isod:





[1]https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/300126/14-705-regulators-code.pdf. Daeth Cod y Rheolyddion i rym ar 6 Ebrill 2014. Ei nod yw gosod fframwaith glir, hyblyg a seiliedig ar egwyddorion ar y modd y dylai rheolyddion ymgysylltu gyda'r rhai y maent yn gyfrifol am eu rheoleiddio.

[2]Mae'r diffiniadau a'r dulliau cyfrifo sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen hon er gwybodaeth yn weddol gyson gydag argymhellion Cylchlythyr Cymdeithas y Diffoddwyr Tân 2013-37 Canlyniadau ac effeithiau gweithgareddau diogelu rhag tân yn y gymuned http://www.cfoa.org.uk/10041.

Fodd bynnag, mae'r nifer o safleoedd y mae gennym ni gofnodion ar eu cyfer yn cynyddu, felly mae canran y 'safleoedd hysbys' sydd wedi bod yn rhan o ymgynghoriadau wedi gostwng yn raddol – o 4.47% yn 2009-10 i 3.26% yn 2013-14.




Mae'r siart isod yn dangos bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cael cyswllt gyda 1,859 o 'safleoedd hysbys' ar un achlysur yn 2013-14. Neu mewn geiriau eraill, mae'r Gwasanaeth wedi cael rhyw fath o ddeialog gyda bron i 12% o safleoedd annomestig a oedd wedi eu cofnodi ar ei System Rheoli Cofnodion.





Fe all cyswllt gyda safleoedd gynnwys:

- archwiliad diogelwch tân ffurfiol neu ymweliad penodol;
- darparu cyngor neu addysg ar gyfer y busnes.

Rydym yn defnyddio dull wedi ei dargedu wrth ddarparu gweithgareddau diogelu rhag tân ac rydym yn sicrhau bod yr holl drafodion yn berthnasol a chymesur â'r risgiau y mae'r safleoedd yn eu peri i'r cyhoedd.

Rydym yn defnyddio dull wedi ei dargedu wrth ddarparu gweithgareddau diogelu rhag tân ac rydym yn sicrhau bod yr holl drafodion yn berthnasol a chymesur â'r risgiau y mae'r safleoedd yn eu peri i'r cyhoedd.

Mae'r graff isod yn dangos sut y mae'r cynnydd blynyddol mewn 'safleoedd hysbys' wedi effeithio ar ganran y safleoedd annomestig yr ydym ni wedi cael cyswllt gyda hwy dros y blynyddoedd diwethaf.




## YR EFFAITH YR YDYM NI'N EI GAEL

Mae'r effaith yn golygu'r canlyniadau hir dymor ar y gymuned ehangach yng Ngogledd Cymru o ganlyniad i'n gweithgareddau diogelu rhag tân.

Rydym ni'n credu bod y gwaith diogelu rhag tân yr ydym ni'n ei gyflawni yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau, busnesau a phobl sydd yn byw, gweithio ac ymweld â Gogledd Cymru. Rydym ni'n gweithio'n agos gyda'n hasiantaethau partner i leihau'r risg i fywydau o ganlyniad i danau mewn adeiladau sydd yn ddarostyngedig i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Mae ein gweithgareddau Diogelwch Rhag Tân wedi eu hanelu at safleoedd yng Ngogledd Cymru sydd mewn mwy o berygl o achosi marwolaethau neu anafiadau o ganlyniad i dân yn ein barn ni.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru, wedi ymrwymo i leddfu baich y rheoliadau drwy ei weithgareddau. Trwy gefnogi busnesau sydd yn cydymffurfio i dyfu trwy ddatblygu perthynas agored a chynhyrchiol rhyngom ni a'r bobl y mae'r rheoliadau yn effeithio arnynt, gallwn gyfrannu tag at Gymru ddiogelach sydd yn rhoi hyder i fusnesau fuddsoddi a thyfu er mwyn diogelu dinasyddion a chymunedau yn well[3].

3https://www.gov.uk/government/organisations/better-regulation-delivery-office

**Byw bywyd iachach**

Helpu pobl i fod yn fwy iach drwy eu hatal rhag cael eu hanafu os bydd tân.

**Cefnogi twf economaidd**

Cynorthwyo busnesau i dyfu, ffynnu a llwyddo drwy addysgu a chynghori a thrwy fynd i'r afael â'r rhai sydd methu â chydymffurfio i sicrhau cystadleuaeth deg.

**Diogelwch y cyhoedd**


Gwneud yn siŵr bod y cyhoedd yn ffyddiog eu bod hwy ac eraill yn ddiogel yn y safleoedd y maent yn gweithio ynddynt neu'n ymweld â nhw.

**Diogelu diffoddwyr tân**

Lleihau'r perygl i ddiffoddwyr tân yn ystod tanau masnachol sylweddol.


## EIN MEWNBWN

Mae'r graff isod yn cynrychioli Swyddogion Diogelu Rhag Tân fesul nifer a chanran o weithlu'r Gwasanaeth dros y blynyddoedd diwethaf. Niferoedd a chanran ar 31 Mawrth.





**Sylwer:** *Roedd y gostyngiad staff yn 2010-11 o ganlyniad i ailstrwythuro'r adran Diogelwch Tân a oedd yn cynnwys cyfnod datblygu at gyfer staff a oedd wedi eu penodi o dan dermau ac amodau newydd ("Y Llyfr Gwyrdd").*

Mae'r siart isod yn dangos bod 16 o Swyddogion a Rheolwyr Cydymffurfiaeth Diogelwch Tân i Fusnesau llawn amser wedi eu cyflogi yn 2013-14 sydd yn cyfateb i 1.98% o'r gweithlu ( 809 o weithwyr).





**Sylwer:** Mae'r Swyddogion Diogelwch Rhag Tân wedi eu cyflogi yn yr adran Diogelwch Tân i Fusnesau ac nid oes ganddynt unrhyw gylch gwaith arall (ar wahân i ymrwymiadau gweithredol ar y System Dyletswydd Amser Hyblyg).

Mae'r graff isod yn dangos faint o gyllideb yr Awdurdod a ddyrannwyd i Ddiogelwch Tân i Fusnesau dros y blynyddoedd diwethaf.





Mae'r siart isod yn dangos bod £1,028,371 (3.24%) o gyllideb £31,722,011 y Gwasanaeth wedi ei dyrannu i'r adran Addysg i Fusnesau yn 2013-14.




## EIN ALLBYNNAU

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn defnyddio'r broses archwilio diogelwch tân cenedlaethol a ddatblygwyd gan Gymdeithas y Prif Swyddogion Tân (CFOA) wrth archwilio safleoedd. Nod y broses yw sicrhau dull gorfodi cyson, anchwiliadwy a thryloyw a all wrthsefyll heriau. Mae'r broses archwilio yn edrych ar lefelau cydymffurfiaeth ar draws ardaloedd gofynnol Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ac mae canlyniadau'r archwiliadau yn amrywio o gyngor ar lafar i hysbysiadau gorfodi ffurfiol.




**Nodyn:** *Cwblhawyd llai o archwiliadau yn 2011/12 o ganlyniad i ailstrwythuro mewnol.*

Drwy fynd ati i broffilio risgiau mewn safleoedd annomestig yng Ngogledd Cymru yn gywir, mae modd i ni wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau a thargedu ein cyngor yn y modd mwyaf effeithiol. Yn y rhan fwyaf o achosion byddwn yn cyfathrebu gyda'r person cyfrifol yn ffurfiol neu'n anffurfiol i'w helpu i gydymffurfio gyda Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

Mae'r camau gweithredu fel a ganlyn:

- Archwiliad Boddhaol – Os bydd yr archwiliad yn cydymffurfio yn fras gyda Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 byddwn yn cofnodi bod yr archwiliad wedi bod yn foddhaol.

- Hysbysiad Anffurfiol – Os bydd archwiliad wedi ei gwblhau a bod ambell broblem wedi dod i'r amlwg yna fe allwn gyhoeddi Hysbysiad Anffurfiol drwy anfon llythyr at y person cyfrifol yn rhoi gwybod iddynt o'r gwaith adfer angenrheidiol sydd yn rhaid iddynt ei gwblhau er mwyn cydymffurfio gyda Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

- Hysbysiad Ffurfiol – Os bydd archwiliad wedi ei gwblhau a bod y cyhoedd mewn perygl o gael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar y safle, neu os nad ydy'r problemau a godwyd mewn Hysbysiad Anffurfiol wedi eu hadfer yn foddhaol, fe allwn gyhoeddi Hysbysiad Gorfodi neu Hysbysiad Gwahardd a fyddai'n gorfodi'n person cyfrifol i gwblhau'r gwaith adfer ymhen cyfnod penodol.

- Erlyniadau – Dan rai amgylchiadau pan fydd diffyg cydymffurfiaeth y tu hwnt i reswm fe allwn erlyn, er mai dim ond ambell waith y mae hyn wedi digwydd. Fel rhan o'n penderfyniad i erlyn byddwn yn asesu'r dystiolaeth ac yn ystyried a yw o ddiddordeb i'r cyhoedd.

## Y CANLYNIADAU

Mae'r canlyniadau yn deillio o ganlyniadau a goblygiadau ein gweithgareddau a'n allbynnau.

Er gwaethaf ymdrechion y person cyfrifol mewn safleoedd annomestig a'r gwaith targedu a gyflawnir gan y Gwasanaeth i sicrhau cydymffurfiaeth gyda Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, nid yw'n bosib gwarantu na fydd tanau ac anafusion o ganlyniad i'r tanau hynny. Pob blwyddyn rydym yn cael ein galw i nifer o danau damweiniol a bwriadol mewn safleoedd annomestig, ac yn anffodus mae pobl yn cael eu hanafu o ganlyniad.


Rhwng 2009/10 a 2013/14 llwyddom i gyfrannu at ostyngiad yn nifer y tanau mewn safleoedd annomestig yng Ngogledd Cymru drwy ein gwaith amddiffyn rhag tanau. Yn ystod y cyfnod hwn, hefyd, fe arhosodd nifer yr anafiadau o ganlyniad i danau mewn safleoedd annomestig yn isel.

Byddwn yn parhau i weithio'n galed i gynnal y canlyniadau rhagorol hyn ac ymdrechu i amddiffyn cymunedau yng Ngogledd Cymru rhag cael eu lladd neu eu hanafu mewn tân.

Nid oedd unrhyw farwolaethau o ganlyniad i danau mewn safleoedd annomestig yng Ngogledd Cymru rhwng 2009/10 a 2013/14.

### Anafiadau

Mae'r graff isod yn dangos nifer yr anafiadau o ganlyniad i danau mewn safleoedd annomestig yng Ngogledd Cymru rhwng 2009/10 a 2013/14. Rhwng y blynyddoedd hyn tyfodd poblogaeth y Gogledd o 677,971 i 690,434.




### Tanau

Mae'r graff isod yn dangos y tuedd ar i lawr yn nifer y tanau mewn safleoedd annomestig yng Ngogledd Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gostyngiad o 205 yn 2009/10 i 115 yn 2013/14.

